**Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint**
**Adroddiad ar ganlyniad ymchwiliad i honiadau'n ymwneud ag ymddygiad y Cynghorydd Charles Cordery o Gyngor Tref Bwcle**
**Cyfeirnod Achos Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: 202105656**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint wedi llunio'r adroddiad hwn yn unol â darpariaethau Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

## 2. Yr Ymchwiliad

2.1 Cynhaliodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") ymchwiliad i honiadau ynglŷn ag ymddygiad y Cynghorydd Charles Cordery, aelod o Gyngor Tref Bwcle.

2.2 Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod ymddygiad y Cynghorydd Cordery yn awgrymu ei fod wedi torri rheolau canlynol y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau:

(a) Paragraff 4(b): Dylech ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

(a) 8(a)(iii): Wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd neu wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â busnes eich Awdurdod, dylech wneud hynny'n seiliedig ar deilyngdod yr amgylchiadau dan sylw ac er budd y cyhoedd mewn perthynas ag unrhyw gyngor perthnasol a ddarparwyd gan Swyddogion eich Awdurdod, yn enwedig gan - (iii) Swyddog Monitro'r Awdurdod.

2.3 Anfonwyd adroddiad yr Ombwdsmon at Reolwr Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir y Fflint i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint.

## 3. Ystyriaeth Gychwynnol gan y Pwyllgor Safonau

3.1 Ystyriodd y Pwyllgor Safonau adroddiad yr Ombwdsman, a gwnaed penderfyniad y dylid gwahodd y Cynghorydd Cordery i wneud sylwadau yn llafar neu yn ysgrifenedig mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad, ac unrhyw honiad bod y Cynghorydd Cordery wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

## 4. Gwrandawiad y Pwyllgor Safonau

4.1 Cynhaliodd y Pwyllgor Safonau wrandawiad ar 30 Medi 2024 a 21 Hydref 2024.

4.2 Ystyriodd y Pwyllgor Safonau'r dystiolaeth ddogfennol a'r dystiolaeth lafar a gyflwynwyd iddo a daeth i gasgliad ar ffeithiau'n ymwneud â'r honiadau.

4.3 Ar ôl dod i gasgliad ynglŷn â'r ffeithiau, penderfynodd y Pwyllgor Safonau:

(a) Bod y Cynghorydd Cordery wedi mynd yn groes i baragraff 4(b) y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

(b) Bod y Cynghorydd Cordery wedi mynd yn groes i baragraff 8(a)(iii) y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

4.4 Penderfynodd y Pwyllgor Safonau y dylid gwahardd y Cynghorydd Cordery rhag bod yn aelod o Gyngor Tref Bwcle am gyfnod o chwe mis.

4.5 Fe wnaeth y Pwyllgor Safonau'r argymhellion canlynol hefyd:

(a) Dylai pob cyngor tref a chymuned yn Sir y Fflint sicrhau fod cynghorwyr yn ymgymryd â hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o fewn y tri mis cyntaf o gael eu penodi neu'u hethol.

(b) Dylai unrhyw gyngor tref neu gymuned, sydd heb lofnodi'r Addewid Cwrteisi a Pharch, ystyried gwneud hynny a thrafod ei weithrediad o fewn gweithgareddau'r cyngor.

(c) Dylai pob cyngor tref a chymuned yn Sir y Fflint wirio bod cyfarfodydd sefydlu cynghorwyr newydd yn sicrhau bod y cynghorwyr yn deall popeth o fewn rheolau sefydlog eu cyngor.

(d) Dylai Cyngor Tref Bwcle gynnig hyfforddiant gloywi ar y Cod Ymddygiad i'r holl aelodau.

4.6 Mae penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

## 5. Dosbarthu'r adroddiad hwn

5.1 Yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei anfon at:

(a) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

(b) Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint.

(c) Y Cynghorydd Cordery.

## 6. Rhwymedigaethau'r Swyddog Monitro

6.1 Ar ôl derbyn yr adroddiad hwn, mae'n rhaid i Swyddog Monitro Cyngor Sir y Fflint wneud y canlynol, yn unol â Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001:

(a) Am gyfnod o 21 diwrnod gyhoeddi'r adroddiad ar wefan yr awdurdod perthnasol a threfnu bod copïau ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn ddi-dâl ar bob adeg resymol mewn un neu ragor o swyddfeydd yr awdurdod, lle bydd gan unrhyw berson hawl i gymryd copïau o'r adroddiad pan drefnir iddo fod ar gael felly, neu i gymryd detholiadau ohono.

(b) Darparu copi o'r adroddiad i unrhyw berson ar gais os bydd yn talu unrhyw dâl y bydd yr awdurdod perthnasol yn gofyn yn rhesymol amdano.

(c) Erbyn saith diwrnod fan bellaf ar ôl i'r adroddiad ddod i law, rhoi hysbysiad cyhoeddus, drwy hysbyseb mewn papurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal ac mewn unrhyw ffyrdd eraill sy'n ymddangos i'r Swyddog Monitro eu bod yn briodol, y bydd copïau o'r adroddiad ar gael, a rhaid iddo bennu'r dyddiad (sef dyddiad nad yw'n fwy na saith diwrnod ar ôl i'r hysbysiad cyhoeddus gael ei roi gyntaf) pan fydd y cyfnod o 21 diwrnod yn dechrau.